Teledu, teledu!

Gofynnwch i'ch plentyn gofnodi faint mae'n gwylio teledu bob diwrnod am wythnos. Wedyn gofynnwch iddo wneud hyn.

- Cyfrifo cyfanswm yr amser gwylio am yr wythnos.
- Cyfrifo cyfartaledd yr amser gwylio am ddiwrnod (hynny yw cyfanswm yr amser gwylio wedi'i rannu â 7).

Yn lle gwylio teledu, gallech ofyn iddo/iddi gofnodi amser bwyta pryd bwyd, neu chwarae tu allan, neu unrhyw beth arall y mae'n ei wneud bob dydd. Yna cyfrifwch y cyfartaledd dyddiol.

Pedwar mewn llinell

Gwnewch grid 6 x 7.
Llenwch y grid â rhifau dan 100.

26	54	47	21	19	5	38
9	25	67	56	31	49	13
39	41	6	1	75	28	90
14	50	81	23	43	4	37
45	29	72	34	7	58	17
36	2	55	11	22	40	42

- Cymerwch dro.
- Rholiwch dri dis, neu roliwch un dis deirgwaith.
- Defnyddiwch y tri rhif i wneud rhif yn y grid.
- Gallwch adio, tynnu, lluosi neu rannu'r rhifau, e.e. os byddwch yn rholio 3, 4 a 5, gallech wneud 3 x 4 – 5 = 7, 54 ÷ 3 = 18, (4 + 5) x 3 = 27, ac yn y blaen.
- Rhowch gownter neu ddarn arian ar y rhif a wnaethoch chi.
- Y cyntaf i gael pedwar cownter mewn llinell syth sy'n ennill.

Rhigymu

Cyfansoddwch rigymau gyda'ch gilydd a fydd yn helpu eich plentyn gofio ffeithiau tablau mwy anodd, e.g.
6 x 7 = 42 hai! 7 x 7 = 49 taw! 6 x 8 = 48 llwyth!

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 6

Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau – Blwyddyn 6 1

Erbyn diwedd Blwyddyn 6, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …

- ☐ Gwybod yr holl dablau i 10 x 10, yn enwedig i rannu, e.e. 63 ÷ 7 = 9, gan gyfrifo gweddill yn gyflym.
- ☐ Lluosi a rhannu degolion â 10 neu 100 yn eu pen, e.e. 2.61 x 10, 53.2 ÷ 100.
- ☐ Rhoi rhifau, gan gynnwys degolion, yn nhrefn eu maint, e.e. 1.06, 0.099, 0.25, 1.67.
- ☐ Defnyddio pensil a phapur i adio a thynnu degolion, e.e. 3.91 + 8.04 + 24.56, neu 13.3 – 1.27.
- ☐ Defnyddio pensil a phapur i luosi a rhannu, e.e. 387 x 46, 21.5 x 7, 539 ÷ 13, 307.6 ÷ 4.
- ☐ Canslo ffracsiynau e.e. lleihau $^{4}/_{20}$ i $^{1}/_{5}$, a chyfrifo pa ffracsiwn yw'r mwyaf, e.e. $^{7}/_{12}$ neu $^{2}/_{3}$.
- ☐ Cyfrifo canrannau syml cyfanrifau, e.e. 25% o £90 yw £22.50.
- ☐ Amcangyfrif onglau a defnyddio onglydd i'w mesur.
- ☐ Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml y gellir eu rhannu'n betryalau, e.e.
- ☐ Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull gweithio.
- ☐ Defnyddio cyfesurynnau i blotio safle pwyntiau.
- ☐ Deall a defnyddio'r wybodaeth mewn graffiau, siartiau a thablau.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gwybod sut i gyfrifo symiau ar bapur ond mae angen iddynt weld hefyd pryd y byddai'n gyflymach cyfrifo yn eu pen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Hoff fwydydd

- Gofynnwch i'ch plentyn beth yw cost ei hoff eitem fwyd.
  Gofynnwch iddo gyfrifo faint fyddai cost 7 ohonyn nhw, neu 8, neu 9.
  Faint o newid fyddai o £50?
- Ailadroddwch y pôs gyda'r bwyd mae'n ei hoffi leiaf.
  Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cost y ddau?

Sêl y ganrif

- Pan fyddwch yn siopa, neu'n gweld sêl mewn siop, gofynnwch i'ch plentyn gyfrifo beth fyddai cost rhai eitemau wrth dynnu :
  50%
  25%
  10%
  5%
- Gofynnwch i'ch plentyn esbonio'i ddull cyfrifo.